



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

---

**OFFERYNNAU STATUDOL**

---

---

**STATUTORY INSTRUMENTS**

---

**2002 Rhif 2814 (Cy.271)**

**2002 No. 2814 (W.271)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant  
Dysgu'r Cynulliad) (Cymru)  
(Diwygio) 2002**

**The Education (Assembly Learning  
Grant Scheme) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2002**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002 drwy amnewid Atodlen newydd. Mae'r Atodlen newydd yn ei gwneud yn eglur mai bwriad Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad yw galluogi y rheiny sydd ag adnoddau ariannol cyfyngedig i fynd ar gyrsiau addysg bellach neu addysg uwch drwy ddarparu cymorth ariannol tuag at gost llyfrau, cyfarpar, teithio neu ofal plant yr eir iddo mewn cysylltiad â mynychu cwrs o'r fath.

These Regulations amend the Education (Assembly Learning Grant Scheme) (Wales) Regulations 2002 by substituting a new Schedule. The new Schedule clarifies that the intention of the Assembly Learning Grant Scheme is to enable those with limited financial resources to undertake courses of further or higher education by providing financial assistance in or towards the cost of books, equipment, travel or childcare incurred in connection with attending such a course.

**2002 Rhif 2814 (Cy.271)****2002 No. 2814 (W.271)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002****The Education (Assembly Learning Grant Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2002***Wedi'u gwneud* 14 Tachwedd 2002*Made* 14th November 2002*Yn dod i rym* 15 Tachwedd 2002*Coming into force* 15th November 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 484, 489 a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996(a) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(b).

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 484, 489 and 569(4) of the Education Act 1996(a) and now vested in the National Assembly(b).

**Enw, cychwyn a chymhwyso****Name, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 15 Tachwedd 2002.

1.-(1) These Regulations are called the Education (Assembly Learning Grant Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2002 and shall come into force on 15th November 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

(2) These Regulations apply in relation to local education authorities in Wales.

**Diwygio Rheoliadau****Amendment of Regulations**

2. Yn Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002(c), yn lle'r Atodlen rhodder -

2. In the Education (Assembly Learning Grant Scheme) (Wales) Regulations 2002(c), for the Schedule substitute -

**"YR ATODLEN****"SCHEDULE**

Rheoliadau 2, 3 a 7

Regulations 2, 3 and 7

**Y DIBEN Y MAE GRANT YN DALADWY AR EI GYFER NEU MEWN CYSYLLTIAD AG EF****PURPOSE FOR OR IN CONNECTION WITH WHICH GRANT IS PAYABLE**

1. Gwneud dyfardaliadau addysg ôl-orfodol o'r enw Grantiau Dysgu'r Cynulliad o dan Reoliadau

1. The making of post-compulsory education awards known as Assembly Learning Grants under the Local

(a) 1996 p.56; diwygir adrannau 484 a 489 gan adran 140(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraffau 125 a 126 o Atodlen 30 iddi. I gael ystyr "regulations" gweler adran 579(1).

(a) 1996 c.56; sections 484 and 489 are amended by section 140(1) of, and paragraphs 125 and 126 of Schedule 30 to, the School Standards and Framework Act 1998. For the meaning of regulations see section 579(1).

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) O.S. 2002/1857 (Cy.181).

(c) S.I. 2002/1857 (W.181).

Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) (Cymru) 2002(a) i bersonau -

- (a) nad yw eu hadnoddau ariannol, fel y'u hasesir hwy yn unol â darpariaethau Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad, yn uwch na lefel yr adnoddau ariannol a bennir yn yr amodau cymhwyster ar gyfer y Cynllun hwnnw; a
- (b) sy'n bodloni amodau cymhwyster eraill (os oes rhai) ar gyfer y Cynllun hwnnw,

at y diben y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

2. Y diben hwnnw yw i alluogi personau i fynd ar gyrsiau addysg bellach neu addysg uwch a ddynodwyd at ddibenion y Cynllun hwnnw drwy ddarparu cymorth ariannol i neu tuag at gwrdd â chost llyfrau, cyfarpar, teithio, neu ofal plant yr eir iddo fel canlyniad o fynychu cwrs o'r fath. "

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b)

14 Tachwedd 2002

Dirprwy Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Education Authority (Post-Compulsory Education Awards) (Wales) Regulations 2002(a) to persons -

- (a) whose financial resources, as assessed in accordance with the provisions of the Assembly Learning Grant Scheme, do not exceed the level of financial resources specified in the conditions of eligibility for that Scheme; and
- (b) who meet the other conditions (if any) of eligibility for that Scheme,

for the purpose referred to in paragraph 2.

2. That purpose is to enable persons to undertake courses of further or higher education designated for the purposes of that Scheme, by providing financial assistance in or towards meeting the cost of books, equipment, travel or childcare incurred in consequence of their attending such a course."

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b)

14th November 2002

*John Marek*

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) O.S. 2002/1856 (Cy.180).

(b) 1998 p.38.

---

(a) S.I. 2002/1856 (W.180).

(b) 1998 c.38.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2002 Rhif 2814 (Cy.271)**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant  
Dysgu'r Cynulliad) (Cymru)  
(Diwygio) 2002

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2002 No. 2814 (W.271)**

**EDUCATION, WALES**

The Education (Assembly Learning  
Grant Scheme) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£1.75**

W193/11/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090585-7



9 780110 905853